Adran Gofal Cymdeithasol a Thai

Tîm Camddefnyddio Sylweddau yr Adran Gofal Cymdeithasol

Gwasanaeth i bobl (18-65) sy'n cael problemau ag alcohol a/neu gyffuriau sy'n cael effaith ar eu hanghenion cymdeithasol

Cyngor Sir Gâr Carmarthenshire County Council

Os oes angen y wybodaeth hon arnoch mewn Braille, print bras neu ar dâp
☎ 01267 228925

Ceir gwybodaeth am wasanaethau a ddarperir gan Gyngor Sir Caerfyrddin ar ei wefan: www.sirgar.gov.uk

Gall camddefnyddio sylweddau gael effaith ddifrifol ar amgylchiadau cymdeithasol pobl. Yn anffodus, gall fod gormod o ofn arnom weithiau i gyfaddef bod rhywbeth o'i le neu i ofyn am gymorth.

Mae gan Adran Gofal Cymdeithasol a Thai Sir Gaerfyrddin Dîm Camddefnyddio Sylweddau, sef grwp o weithwyr proffesiynol, sydd wedi'u hyfforddi i weithio gyda phobl sy'n cael problemau â chamddefnyddio sylweddau sy'n cael effaith ar eu hamgylchiadau neu sefyllfa gymdeithasol.

Pa fath o gymorth gall y tîm ei roi?

Gallwn eich cynorthwyo i adnabod y problemau yn eich bywyd a chwilio am ffyrdd i oresgyn y problemau hyn.

Gallai hyn olygu cymorth gydag unrhyw un o'r canlynol:

- Tai;
- Gwybodaeth a chyngor;
- Cymorth i'r teulu;
- Cymorth ymarferol yn y gymuned;
- Mynediad at gyfleusterau adsefydlu preswyl;
- Mynediad at wasanaethau camddefnyddio sylweddau yn lleol ac yn genedlaethol;
- Cymorth i gael mynediad at wasanaethau cymunedol priodol eraill.

Sut allaf i gael cymorth?

Gallwch gysylltu â ni'n uniongyrchol trwy ein ffonio neu drwy ysgrifennu atom yn Swyddfa'r Tîm neu drwy'r e-bost. Mae'r rhif, cyfeiriad a'r cyfeiriad e-bost wedi'u rhestru isod.

Os ydych yn cysylltu â ni ynghylch rhywun heblaw chi eich hun, mae'n bwysig gwybod y bydd **angen caniatâd y person cyn y gallwn gynnig unrhyw gymorth neu gyngor**.

Beth sy'n digwydd nesaf?

Ar ôl inni gasglu gwybodaeth am eich sefyllfa, gallwn benderfynu ar y ffordd orau o symud ymlaen. Weithiau, bydd hyn yn golygu asesu eich anghenion, a byddwn yn edrych ar wasanaethau a allai eich cynorthwyo gyda'ch problemau. Mae hyn yn rhan o'r broses Asesu Gofal Cymunedol, a gellir dod o hyd i fanylion pellach am hyn yn y llyfryn "Asesiadau Gofal Cymunedol a Chynlluniau Gofal" sydd ar gael gan y Tîm Camddefnyddio Sylweddau.

Tîm Camddefnyddio Sylweddau Sir Gaerfyrddin
3 Rhodfa'r Goron
Llanelli
SA15 3UT
☎01554-779649
E-bost: sgarland@sirgar.gov.uk